Cyhoeddiad gan
Swyddfa Cymru

# Cymru a Chaethwasiaeth

I nodi 200 mlynedd
ers Diddymu'r Ddeddf
Masnachu Caethweision



# RHAGAIR

Ychydig iawn o ddigwyddiadau yn hanes y byd a fu'n fwy annynol a chywilyddus na'r fasnach gaethweision ar draws Môr Iwerydd.

Ac yr oedd Cymru'n rhan o hyn:  bu i Gymry, yn ferched a dynion, elwa'n helaeth ar gaethwasiaeth.  Yn yr un modd, bu pobl o Gymru'n ymladd yn galed i'w ddiddymu, gydag 1807 yn nodi cychwyn y daith hir tuag at ddiddymu caethwasiaeth o'r diwedd yn y cyn Ymerodraeth Brydeinig erbyn 1833.

Heddiw, mae'n anodd deall sut y bu'r trosedd echrydus hwn yn erbyn dynoliaeth – a ysgogwyd gan hiliaeth a thrachwant – erioed yn dderbyniol, heb sôn am fod yn gyfreithlon.   Ond beth sydd hyd yn oed yn fwy anodd ei ddeall yw hyn, sef er bod caethwasiaeth wedi'i ddiddymu'n gyfreithiol wedi ymdrech hir yng ngwledydd America yn 1888, ei fod yn parhau i fodoli heddiw.

Amcangyfrifir bod 20 miliwn o bobl ledled y byd yn parhau i ddioddef realiti beunyddiol digalon caethwasiaeth a chaethwasanaeth. Mae caethwasiaeth yn y byd modern – sy'n cynnwys masnachu mewn pobl, puteindra gorfodol a llafur caeth – yn parhau'n ddiwydiant ffyniannus sy'n cynhyrchu oddeutu £24.6 biliwn o elw bob blwyddyn, yn ôl amcangyfrifon. Felly, rhaid i'r frwydr ryngwladol yn erbyn caethwasiaeth barhau.

Yn union fel y bu i bobl yng Nghymru ymgyrchu yn erbyn apartheid yn Ne Affrica -  a derbyn diolchiadau Nelson Mandela pan dderbyniodd ef ryddfraint anrhydeddus Dinas Caerdydd yn 1998, rhaid i ninnau dynnu sylw at y fath ormes, ac ymladd yn ei erbyn heddiw ac i'r dyfodol.

Mae'r ddau gan mlwyddiant hwn yn rhoi cyfle i'n cenedl ni edrych yn ôl, a chydnabod ein dyled i'r rhai a ymladdodd a cholli'u bywydau o ganlyniad i'r fasnach ffiaidd hon yng Nghymru, a'r bobl hynny o wahanol hil, ffydd a dosbarth a frwydrodd i'w diddymu.

Mae'n ein hatgoffa i ymdrechu'n galetach nag erioed i fynd i'r afael â hiliaeth ac i fynnu bod pob person dynol yn gydradd, waeth beth fo'u hil, rhyw, rhywioldeb, oedran nac anabledd.

Wrth i ni edrych yn ôl ar lwyddiannau'r diddymwyr, dylem hefyd gydnabod y cyfraniad a wnaed gan gymunedau Affricanaidd Du, Caribïaidd a lleiafrifoedd ethnig eraill tuag at wneud Cymru'n wlad fodern, ffyniannus aml-hil, aml-ddiwylliannol ac aml-ffydd lewyrchus fel y mae heddiw.

Y ffordd fwyaf addas o nodi'r 200 mlwyddiant hwn a thalu teyrnged i ymdrechion y diddymwyr – yn ddu a gwyn – yw drwy ddathlu ein hamrywiaeth yng Nghymru a bod yn fwy penderfynol o fynd i'r afael ag anghyfiawnder a thlodi ledled byd.

**Peter Hain AS**

Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Mawrth 2007



## Y Comisiwn Iawndal Caethweision

Mae gan Swyddfa Cymru ei chyswllt uniongyrchol a hanesyddol ei hun â diddymu'r fasnach gaethweision.

Defnyddiwyd Tŷ Gwydyr – cartref Swyddfa Cymru yn Whitehall, Llundain – i gartrefu'r Comisiwn Iawndal Caethweision am gyfran o'i fodolaeth yn yr 19eg Ganrif.

Y Comisiwn oedd un o ganlyniadau mwy dadleuol diddymu caethwasiaeth.  Fe'i sefydlwyd yn 1833 yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Prydain i neilltuo  £20 miliwn i dalu iawndal i blanwyr, masnachwyr caethweision a pherchnogion caethweision am y diddymu. Eleni, byddai'r ffigwr hwnnw'n cyfateb i £2biliwn. Ni ddyfarnwyd ceiniog erioed i gyn gaethwas.



**Tŷ Gwydyr, Llundain**

Hoffai Swyddfa Cymru ddiolch i: Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Prifysgol Abertawe, Prifysgol Bangor, Ymddiriedolaeth Paul Robeson Cymru a Hywel Francis AS am eu cymorth yn cynhyrchu'r llyfryn hwn.

I gael mwy o wybodaeth am yr arddangosfa "Pobman mewn Cadwynau..." Cymru a Chaethwasiaeth a ddangosir yn Amgueddfa'r Glannau, Abertawe o Mai 07 ymlaen, ymwelwch â: www.museumwales.ac.uk

Am fwy o wybodaeth am ddigwyddiadau a drefnir gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol i nodi'r ddau gan mlwyddiant, ymwelwch â: www.nationaltrust.org.uk

Am fwy o wybodaeth am Ymddiriedolaeth Paul Robeson Cymru, ymwelwch â: www.croesoproject.org

Am fwy o gopïau o'r llyfryn hwn, anfonwch e-bost at: wales.office@walesoffice.gsi.gov.uk

Neu ysgrifennwch at:
Llyfryn Cymru a Chaethwasiaeth
Swyddfa Cymru
Tŷ Gwydyr
Whitehall
Llundain
SW1A 2ER

I ddweud wrthym beth rydych chi'n ei wneud i ddathlu'r ddau gan mlwyddiant, anfonwch e-bost at: wales.office@walesoffice.gsi.gov.uk

Portread o'r gwas coestys Negroaidd yn Neuadd Erddig, Wrecsam

# CYMRU A'R FASNACH GAETHWEISION

Diwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg oedd hi pan gipiwyd y bobl gyntaf o Orllewin Affrica o'u pentrefi, eu cadwyno yng nghrombil llongau drewllyd, a'u cludo ar draws y môr i'w gwerthu i fywyd o gaethwasiaeth.

Am genhedlaeth ar ôl cenhedlaeth wedi hynny, dilynodd miliynau o Affricaniaid y llwybr enbyd hwn, gyda hualau haearn am eu coesau ac yn cael eu masnachu fel eitemau o eiddo personol ar draws y byd, i lafurio dros eu meistri, a oedd gan fwyaf yn ddynion gwyn. Trawsgludwyd oddeutu deuddeng miliwn i gyd – a bu farw oddeutu tair miliwn yn ystod y daith.

Yr oedd y rhai a oroesodd y daith yn cael eu prynu a'u gwerthu gan deuluoedd, gan gyflogwyr a chan unigolion ariannog. Yr oeddynt yn cael eu gorfodi i ddioddef trais a chamdriniaeth hiliol gydol eu hoes, ac yn cael eu trin fel rhywogaeth is-ddynol. Pan werthwyd hwy, byddai caethweision yn dod yn eiddo i'w perchnogion yn llythrennol, gan fyw dan amodau aflan fel gweision, garddwyr, gweithwyr ar blanhigfeydd, eiddo personol, ac yn aml yn cael eu treisio neu'u  curo.

Yr oedd y fasnach gaethweision ar draws yr Iwerydd yn dilyn llwybr triongl. Yr oedd masnachwyr yn cychwyn allan o borthladdoedd Ewropeaidd tuag at arfordir Gorllewin Affrica. Yno, yr oeddynt yn prynu pobl yn gyfnewid am nwyddau – gan gynnwys breichledi copr a gynhyrchwyd yng ngweithfeydd copr niferus Abertawe -  ac yn eu llwytho ar y llongau caethweision. Wedi mordaith o oddeutu chwech i wyth wythnos, byddent yn cyrraedd gwledydd America a byddai'r Affricaniaid hynny a oedd wedi goroesi'r daith yn cael eu dadlwytho i'w gwerthu.

Byddai'r llongau wedyn yn dychwelyd i Ewrop yn cario siwgr, coffi, tybaco, reis a chotwm, sef cynnyrch llafur caled y caethweision.

Yr oedd Prydain wrth galon y fasnach hon – un o'r enghreifftiau mwyaf cywilyddus o ecsbloetio a gorthrwm yn hanes y ddynoliaeth – ac yr oedd diwydiannau a phorthladdoedd Prydain yn rhan annatod ohoni a chyfoeth mawr wedi deillio ohoni. .

Eto, er clod inni yn y diwedd, o ganlyniad i Ddeddf y Fasnach Gaethion 1807 a hyrwyddwyd yn enwog iawn gan William Wilberforce, Prydain oedd y wlad gyntaf yn y byd i ddiddymu'r holl fusnes barbaraidd.

Mae 2007 yn ddaucanmlwyddiant diddymu'r fasnach gaethweision gan y Senedd. Yr oedd yn golygu ei bod yn anghyfreithlon masnachu mewn caethweision ledled yr Ymerodraeth Brydeinig, a bod llongau Prydeinig wedi'u gwahardd rhag bod â rhan yn y fasnach.

Ddau gan mlynedd wedyn, mae cludo caethweision ar draws yr Iwerydd yn parhau i fod yn un o'r mentrau mwyaf annynol a welodd hanes erioed. Nid yw'r cofnod o gysylltiad Cymru – na Phrydain yn gyffredinol – â'r fasnach gaethweision yn un i ymfalchïo ynddi. I'r gwrthwyneb, ffynnodd llawer iawn o Gymry o ganlyniad i gaethwasiaeth ac yr oedd llawer o gyfoeth Cymru ar y pryd hwnnw'n seiliedig ar y fasnach.

Fodd bynnag, yr oedd llawer o Gymry amlwg yn cefnogi Mesur 1807 i ddiddymu cyswllt Prydain â'r fasnach ac ymunodd llawer â'r ymgyrch dros ddiddymu caethwasiaeth yn America.

Ymddengys yn rhyfeddol heddiw, i ystyried faint o Gymru a fanteisiodd – yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol – o ganlyniad i'r fasnach gaethweision.

Yr oeddynt yn cynnwys Cymru a oedd yn berchen ar blanhigfeydd a chaethweision dramor; Capteiniaid a morwyr o Gymru a wasanaethai ar longau a oedd yn cludo caethweision; adeiladwyr llongau a'u gweithwyr, a oedd yn gwneud llongau a ddefnyddid yn y fasnach; pobl yn byw mewn plastai a ariannwyd gan y fasnach gaethwasiaeth; llafurwyr yn gweithio mewn diwydiannau a gâi eu hariannu gan arian o'r fasnach gaethwasiaeth; a chrefftwyr yn gwneud tlysau a nwyddau eraill i'w gwerthu'n gyfnewid am gaethweision.

Gellid dadlau y bu i gysylltiad Cymru, a Phrydain yn fwy cyffredinol, â'r fasnach gywilyddus hon, gynorthwyo i roi cychwyn i'r Chwyldro Diwydiannol.  Gyda'r arian a oedd yn cael ei wneud o gaethwasiaeth, bu modd iddynt ddatblygu peiriannau newydd a chodi ffatrïoedd newydd a chyda'r planhigfeydd enfawr a oedd yn eiddo i Gymry, yr oedd ganddynt hefyd fynediad at ffynhonnell rad o ddeunydd crai megis siwgr a chotwm.

Fod bynnag, ni fyddai llawer o bobl wrth feddwl am y cysylltiad rhwng Cymru a chaethwasiaeth, yn edrych ddim pellach na phendroni ynghylch faint o deuluoedd Affricanaidd Americanaidd sydd â chyfenwau a ystyrir yn rhai traddodiadol Gymreig.

Mae rhai'n dadlau mai'r rheswm am hyn yw bod eu cyndeidiau o gaethweision wedi cymryd enwau'u perchnogion. Does dim dwywaith nad oedd hynny'n wir mewn rhai achosion. Fodd bynnag, mae'n debygol iawn i lawer o enwau ddod i fodolaeth drwy droi enwau cyntaf megis John, William a David, yn Jones, Williams a Davies neu Davis, er enghraifft. Gallai eraill fod wedi cymryd eu cyfenwau oddi wrth bregethwyr Cymreig, ac eraill ar ôl Cymry a roes gymorth iddynt ddianc o gaethwasiaeth, gan ddarparu 'tŷ diogel' weithiau, wrth iddynt ddianc.

Yr hyn sy'n sicr yw bod enwau rhai o'r planhigfeydd yn y Caribî yn gysylltiedig â pherchnogion Cymreig, megis Llandovery a Cardiff

Caethweision wedi'u cipio ar fwrdd llong




Caethweision wedi'u cipio



Castell Penrhyn





ABOLITION
OF
SLAVERY.

The GLORIOUS 1st of AUGUST, 1838,
When it is confidently expected that the last vestige of SLAVERY will be swept away in all our West India Islands.

A Public Thanksgiving Service will be held in the ENGLISH WESLEYAN CHAPEL, on WEDNESDAY Evening next, AUGUST 1st, 1838, PRECISELY at 7 o'Clock. Addresses in both Languages will be delivered on the auspicious occasion.

The attendance of ALL that feel interested in the welfare of 800,000 of their fellow-creatures who will shortly emerge from a

Poster yn hyrwyddo gwasanaeth diolchgarwch yng Nghaerfyrddin

*‘...bod enwau rhai o’r planhigfeydd yn y Caribî yn gysylltiedig â pherchnogion Cymreig...’*

Hall yn Jamaica. Ac yr oedd rhai caethweision hyd yn oed yn cael eu henwi ar ôl mannau yng Nghymru – yr oedd gan berchennog planhigfa yn Jamaica gaethweision a elwid ganddo’n Monmouth, Pembroke, Newport a Cardiff.

Daeth hyn i fod yn rhannol am resymau daearyddol, gan fod y tri phrif borthladd ym Mhrydain yn y dyddiau hynny’n gyfleus ar gyfer capteiniaid a morwyr o Gymru - Llundain lle yr oedd llawer o Gymry’n byw, a Bryste a Lerpwl, a oedd yn agos iawn at dde a gogledd Cymru.

Yr oedd y llongau caethweision a ddychwelai i Brydain yn cludo nwyddau megis siwgr, cotwm a thybaco yn glanio mewn porthladdoedd Cymreig yn ogystal ag yn y prif borthladdoedd, gan ddod â masnach i Gaergybi, er enghraifft.

Yn ogystal â darparu gwaith ar gyfer morwyr o Gymru, yr oedd y fasnach gaethweision yn darparu gwaith ar gyfer iardiau llongau yng Nghymru.

Bu i adeiladwyr llongau, crefftwyr a llafurwyr elwa o’r fasnach, gyda llongau a adeiladwyd yng Nghaerdydd, Cas-gwent a Chasnewydd yn hwylio ar fordeithiau trionglog yn rheolaidd.

Codwyd llawer o longau yng Nghas-gwent, gyda rhai o’i gwmnïau adeiladau llongau’n elwa’n fawr ar y fasnach, gan gynnwys cwmni Bowsher, Hodges a Watkins.

Roedd manteision hefyd i berchnogion llongau lleol, fel Henry Wise, a sefydlodd iard longau yng Nghaldicot, gan godi 13 o longau yno, yn ogystal â llawer o rai eraill yng Nghas-gwent ac mewn iardiau yn Lloegr.

Ffynnodd llawer o Gymry fel perchnogion planhigfeydd ac yr oedd llawer o Gymry’n cadw caethweision yn India’r Gorllewin a’r trefedigaethau Americanaidd.

Etifeddodd Richard Pennant, AS Lerpwl ac Arglwydd cyntaf Penrhyn yn ddiweddarach, yr ystâd fwyaf yn Jamaica, gan ddod yn berchennog ar 600 o gaethweision a 8,000 acer o blanhigfeydd siwgr. Ar 12 Mai 1789 cymerodd ran mewn dadl danllyd yn Nhŷ’r Cyffredin lle y bu’n dadlau’n frwd o blaid caethwasiaeth ac yn erbyn diddymu. Yr oedd hefyd yn gwrthwynebu mesur a fyddai wedi lleihau’r nifer o gaethweision a ganiateid ar fwrdd llong.

Etifeddodd Richard Pennant nid yn unig y planhigfeydd yn Jamaica ond hefyd Gastell Penrhyn ger Bangor, lle yr oedd darluniau o blanhigfeydd hyfryd – annhebyg iawn i ddioddefaint caled bywyd y caethweision. Mae Castell Penrhyn bellach yn eiddo i’r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac yn atyniad poblogaidd i dwristiaid sy’n ymweld â Gogledd Cymru. Gellir gweld prawf pellach o’r cyfoeth a grëwyd yng Ngogledd Cymru gan y fasnach gaethweision, yng Nghastell y Waun. Mae hualau haearn i’r coesau sy’n cael eu harddangos yn y castell yn atgoffa rhywun o ffynhonnell cyfoeth y teulu Myddleton.

Yr oedd Nathaniel Phillips, o Sir Benfro, hefyd yn dirfeddiannwr cyfoethog a oedd yn berchen ar blanhigfa yn Jamaica.

Roedd llawer o Gymry’n cadw caethweision yn y trefedigaethau Americanaidd ac India’r Gorllewin. Yr oedd y bardd Goronwy Owen a adawodd Lundain am Williamsburg, Virginia yn 1757, i ddysgu yng Ngholeg William a Mary, yn cadw caethweision yn ei gartref, fel oedd yn arferol hyd yn oed i bobl wyn weddol ffyniannus.

Bu i’r farchnad gaethweision, boed yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol arwain at greu a datblygu plastai yng Nghymru, yn gysylltiedig â diwydiannau lleol. Pant yr Ochain yng Ngogledd Cymru oedd y prif dŷ yng Ngresffordd ar un adeg, ac fe’i adeiladwyd a’i wella gan Syr Foster Cunliffe. Gwnaeth ei daid, Foster Cunliffe arall, ei arian o gaethwasiaeth, fel y prif fasnachwr caethweision yn Lerpwl. Mae Pant yr Ochain yn dafarn boblogaidd sy’n arbenigo mewn bwyd o safon uchel.

Yr oedd llawer o ddiwydiannau Cymreig eraill yn ddyledus am eu ffyniant i’w cysylltiad â’r fasnach gaethweision. Defnyddiodd Richard Pennant lawer o’i gyfoeth o’i blanhigfeydd i godi ffyrdd a harbwr i gefnogi Chwarel y Penrhyn, Bethesda, tra yr oedd y

## *Morwyr o Gymru*

*Un dyn o’r fath oedd Thomas Phillips, capten yr **Hannibal** a oedd ei hun yn masnachu mewn caethweision. Pan gyrhaeddodd y gaer Brydeinig fwyaf yn Cape Coast yn Ghana, yr oedd ei long yn cario pob math o bethau i’w cyfnewid am gaethweision, gan gynnwys mysgedau, tegelli pres, carpedi a brethyn Cymreig. Byddai wedyn yn defnyddio’i gargo i fargeinio gyda brenin Affricanaidd a derbyn caethweision yn gyfnewid cyn cychwyn am India’r Gorllewin.*

*Yn ogystal â chapteiniaid, yr oedd llawer o forwyr o Gymru’n ymwneud â’r fasnach. Roedd y rhain yn cynnwys John Morris o Fôn, yr ieuengaf o bedwar o frodyr a oedd i gyd yn forwyr.*

*Gwasanaethodd ar yr **Harrington**, llong o eiddo’r British East India Company a oedd yn trawsgludo caethweision o Fadagascar i’w gwerthu yn yr India. Prynodd ei gapten, Robert Jenkins, rai caethweision i’w gwerthu a chofnododd John mewn llythyr at un o’i frodyr fod ganddo gaethwas i’w werthu. Bu farw yn 1740 fel aelod o griw’r **Torbay** ar Dominica: yn eironig iawn, un o’r ynysoedd a oedd yn gysylltiedig â’r farchnad gaethwasiaeth.*



Caethweision yn gweithio ar blanhigfa siwgr



Breichledi Manila



Caethgadwynau haearn i roi ar goesau

diwydiant llechi yn y gogledd a'r diwydiant metel yn y de'n cael eu hariannu'n bennaf gan y fasnach.

Yn ystod ail hanner y ddeunawfed ganrif, yr oedd Cymru'n rheoli hanner cyflenwad copr y byd. Yr oedd Cwmni Gwaith Mwyn Parys ger Amlwch ar Ynys Môn dan reolaeth Thomas Williams, yn llwyddo oherwydd y fasnach gaethwasiaeth. Yr oedd yr eitemau a gynhyrchid ganddynt yn hynod boblogaidd gydag arweinwyr Affricanaidd ac yn cael eu defnyddio i brynu caethweision. Yr oedd yr arian a wnaed ganddynt wedyn yn cael ei fuddsoddi'n ôl yn y Mwynglawdd.

Sefydlodd Williams hefyd weithfeydd copr ym Mhenclawdd ger Abertawe ac yn Nhreffynnon yng Ngogledd Cymru. Ar un adeg, yr oedd holl gynnyrch gwaith Penclawdd yn cael ei ddefnyddio i brynu caethweision.

Erbyn 1800 yr oedd Abertawe'n cynhyrchu 90 y cant o gopr Prydain, llawer ohono'n cael ei ddefnyddio i hyrwyddo'r fasnach gaethweision. Yr oedd y ffatrïoedd yn darparu dysglau a chwpanau i'r llongau a hefyd yn gwneud modrwyau, breichledi a thlysau o gopr ac efydd a ddefnyddid gan fasnachwyr i brynu caethweision Affricanaidd.

Yr oedd diwydiannau Cymreig yn ffynnu gan y gellid prynu caethweision am yr eitemau metel hyn. Yr oedd Gweithfeydd Forest a Gweithfeydd White Rock, y ddau wedi'u sefydlu ger Abertawe yn cynhyrchu manillas (breichledi) yn arbennig ar gyfer y fasnach ac yr oedd y rhain ymysg yr eitemau a oedd yn cael eu defnyddio i brynu caethweision.

Chwaraeodd caethwasiaeth rôl allweddol hefyd yn llwyddiant y diwydiant haearn ym Merthyr Tudful. Bu i gysylltiadau Anthony Bacon â'r fasnach ei alluogi i ddatblygu'r gwaith dur yng Nghyfarthfa a diwydiannau eraill yn ardal Merthyr Tudful. Mae Castell Cyfarthfa, sydd bellach yn amgueddfa, yn parhau i arddangos y cyfoeth a ddeilliodd o gysylltiadau â chaethwasiaeth.

Cymaint oedd maint y fasnach fel nad oedd bron unrhyw dref na chyflogwr ym Mhrydain erbyn canol y ddeunawfed ganrif, nad oedd ganddynt gysylltiad â'r fasnach drionglog neu'r fasnach uniongyrchol mewn caethweision.




# Y FRWYDR DROS RYDDID

Ond nid oedd cyswllt y Cymry â'r fasnach gaethweision yn negyddol i gyd, gan fod llawer o ffigurau amlwg yn cefnogi'r mudiad dros ddiddymu.

Daeth yr ymgyrch i ddiddymu caethwasiaeth yn rym yn ystod chwarter olaf y ddeunawfed ganrif. Condemniwyd y fasnach gaethweision gan feirdd ac awduron buddugol mewn Eisteddfod yn Llanelwy yn 1790.

Un arall a wrthwynebai'r fasnach yn frwd oedd y bardd Iolo Morgannwg, sylfaenydd Gorsedd Beirdd yr Eisteddfod Genedlaethol. Yr oedd yn un o edmygwyr William Wilberforce, ac yr oedd yn feirniadol o'i frodyr ei hun am fod yn berchnogion caethweision.

Ysgrifennodd Iolo Morgannwg gerdd arbennig i nodi pasio Deddf Wilberforce i Ddiddymu'r Fasnach Gaethweision yn 1807, a ddaeth â chyswllt Prydain â'r fasnach gaethweision i ben. Dyfyniad o'r gerdd:

*"Man as merchandise! His body and soul*
*No more will be claimed by the sons of greed;*
*Soon, with a furious vengeance,*
*They will disappear from every land;*
*A day to open all prison doors,*
*Shatter chains, and break the yoke,*
*A day to dry the tears of sorrow,*
*The day of our God is drawing near."*

Ond nid oedd y frwydr i ddiddymu caethwasiaeth ledled byd drosodd, a chwaraeodd llawer o Gymry ran amlwg yn yr ymgyrch yn erbyn caethwasiaeth yn America, nas diddymwyd hyd ddiwedd y Rhyfel Cartref yn 1865.




Gwaith haearn Cyfarthfa

Ymfudodd Morgan John Rhys, gweinidog gyda'r Bedyddwyr o Lanbradach i'r America i sefydlu gwladfa Gymreig. Yr oedd yn pregethu yn erbyn caethwasiaeth a sefydlodd eglwys ar gyfer pobl dduon yn Savannah, Georgia.

Ymfudodd Robert Everett, gweinidog gyda'r Annibynwyr o Gronant, Sir y Fflint, yn 1823. Cyhoeddodd Y Cenhadwr Americanaidd, cylchgrawn misol ar gyfer Annibynwyr a defnyddiodd y cylchgrawn i gondemnio caethwasiaeth ac annog y Cymry yn America i ymuno â'r ymgyrch dros ddiddymu.

Hefyd yn amlwg yn y mudiad gwrth-gaethwasiaeth yr oedd Francis Donaldson a'i wraig Anna Margaretta a ymfudodd o Raeadr i Ohio yn 1822. Mae Ohio yn ffinio â Kentucky lle yr oedd caethwasiaeth yn parhau'n gyfreithlon, a daeth eu cartref hwy'n 'dŷ diogel' ar gyfer caethweision a oedd yn dianc i'w rhyddid ar draws yr Afon Ohio.

Yr oedd Harriet Beecher Stowe yn un arall o'r diddymwyr â chysylltiadau Cymreig gan i'w hen nain ymfudo i America o Gymru. Yn 1853, blwyddyn ar ôl i'w nofel Uncle Tom's Cabin gael ei chyhoeddi yn America, cyhoeddwyd dau fersiwn Cymraeg ohoni hefyd. Rhoes hwn ddarlun syfrdanol i bobl yng Nghymru o erchyllterau'r fasnach gaethweision.

Cynhaliwyd llawer o ddigwyddiadau yng Nghymru lle yr oedd diddymwyr o America yn annerch er mwyn ennyn cefnogaeth i'r ymgyrch.

Yn 1841 teithiodd Moses Roper o gwmpas Cymru i hyrwyddo llyfr a ysgrifennodd ar ei brofiadau fel caethwas a sut y dihangodd o gaethwasanaeth – llyfr a gyfieithwyd i'r Gymraeg.

Bu cyn gaethwas arall, Samuel Ringgold Ward yn annerch yng Nghymru, ac felly hefyd un o'r diddymwyr Affricanaidd-Americanaidd enwocaf, Frederick Douglass.

Yn 1860, ymgeisiodd y Gweriniaethwr Abraham Lincoln am y Tŷ Gwyn gan dargedu ymsefydlwyr Cymreig yn arbennig. Bu'n canfasio yn eu mysg gyda hyd at 100,000 o bamffledi etholiadol a oedd wedi'u hargraffu yn Gymraeg. Yr oedd y Blaid Weriniaethol, nas sefydlwyd ond ers1854, yn blaid radical a gwrth-gaethwasiaeth. Yr oedd y Democratiaid, ar y llaw arall, o blaid caethwasiaeth. Gyda chymorth y bleidlais Gymreig, llwyddodd Abraham Lincoln yn yr etholiad ac aeth ymlaen i chwarae rhan bwysig yn niddymu caethwasiaeth yn America.

Ymladdodd llawer o Gymry ar ochr y Gogledd yn Rhyfel Cartref America, yn eu mysg dros150 o ddynion yn y 56th Ohio Infantry. Yr oedd sawl agwedd i'r rhyfel, gan gynnwys y ddadl yn erbyn caethwasiaeth. Wrth i'r rhyfel ddirwyn i'w therfyn yn 1865 gyda lluoedd yr Undeb yn fuddugoliaethus, diddymwyd caethwasiaeth yn America o'r diwedd.

Yn y dyddiau mwy goleuedig hyn, diolch i'r drefn – ac yn enwedig yn ystod y flwyddyn sy'n nodi daucanmlwyddiant diwedd cyswllt Prydain â'r fasnach gaethweision - yr ydym yn cydnabod yn llawn gyfranogiad pobl o Gymry, yn berchnogion caethweision, masnachwyr caethweision a diwydianwyr a wnaeth eu ffortiwn drwy'r fasnach hon. Yn erbyn y realiti erchyll hwnnw, fodd bynnag, yr ydym yn talu teyrnged i gyfraniad llawer iawn o ddynion a merched o Gymru yn yr ymgyrch dros ddiddymu caethwasiaeth.

Gallwn ollrhain yr hiliaeth hon, sy'n anghyfreithlon ac yn wrthun heddiw, yn ôl i gyfnod caethwasiaeth a'r Umerodraeth Brydeinig. Mae cyfreithiau newydd yn gwarchod gweithwyr a'u nod yw cael gwared ar hiliaeth yn ein cymdeithas. Ond mae gangiau o droseddwyr trachwantus yn ceisio ochrgamu'r gyfraith, gan smyglo pobl dlawd ac ymelwa arnynt mewn gwahanol rannau o'r byd, a chreu caethweision y byd modern..

Wrth i ni gofio caethweision y gorffennol a'r ecsbloetio cywilyddus a chreulon a ddioddefwyd ganddynt, mae angen i ni ailddatgan ein hymroddiad i'r un hawliau a rhyddid y dylai pawb eu mwynhau heddiw, waeth beth fo'u hil, ffydd, rhyw, rhywioldeb, oedran neu unrhyw anabledd.

*'...yr oedd holl gynnyrch gwaith Penclawdd yn cael ei ddefnyddio i brynu'*

*'chwaraeodd llawer o Gymry ran amlwg yn yr ymgyrch yn erbyn caethwasiaeth'*

# PAUL ROBESON YNG NGHYMRU

Roedd i Gymru le arbennig yn yr ymdrech i ddiddymu caethwasiaeth am lawer o resymau.

Un o'r cysylltiadau i ymfalchïo fwyaf ynddo yw cyswllt Cymru â Paul Robeson, yr ymgyrchydd hawliau dynol Affricanaidd Americanaidd enwog, gŵr ag agwedd ryngwladol ganddo, a oedd yn fab i gaethwas a ddihangodd.

Pan gafodd ei erlid am ei safiad yn erbyn etifeddiaeth barhaus caethwasiaeth – sef hiliaeth a choloneiddio – safodd Cymru, yn enwedig glowyr Cymru yn gefn iddo gan ymgyrchu dros ei hawl i deithio a chanu ledled byd.

Daeth ei gyswllt ffôn ar draws yr Iwerydd ag Eisteddfod Glowyr De Cymru ym Mhorthcawl yn 1957 yn un o'r eiliadau hanesyddol mawr yn hanes y Gymru fodern – gan herio'r gwaharddiad arno i deithio o'r Unol Daleithiau.

Yr oedd Paul Robeson yn uniaethu ag amodau gwaith glowyr Cymru yn y cyfnod rhwng y ddau ryfel, amodau tebyg i rai caethweision, a gwnaeth hynny'n benodol drwy wneud y ffilm Proud Valley yn 1939.

Mewn cyfarfod coffa gwrth-ffasgaeth yn Aberpennar yn 1938 gwnaeth y sylw cofiadwy:

**"The artist must elect to fight for freedom or for slavery. I have made my choice, I had no alternative."**

Cyfarfu Ysgrifennydd Gwladol Cymru Peter Hain â mab Paul, Paul Robeson Jnr, yn Efrog Newydd ym mis Chwefror 2007 fel rhan o weithgareddau Swyddfa Cymru i goffau dau gan mlwyddiant a hanner can mlwyddiant darllediad enwog Robeson i Borthcawl.



Paul Robeson



Paul Robeson Jnr a Peter Hain, Ysgrifennydd Gwladol Cymru